# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd Meddwl

**2 Chwefror 2022**

**11.30 – 12.30**

**Rhithwir - Teams**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Ken Skates AS | Cadeirydd |
| Simon Jones | Mind Cymru (ysgrifenyddiaeth) |
| Rhun ap Iorwerth AS | Ynys Môn |
| Suzanne Duval | Diverse Cymru |
| Sue O'Leary | Mind Cymru |
| Nia Evans | Mind Cymru |
| Eleri Cubbage | Swyddfa Lynne Neagle AS |
| Emily Wooster | Y Sefydliad Iechyd Meddwl |
| Richard Jones | Mental Health Matters |
| James Radcliffe | Platfform |
| Emma Gooding | Y Samariaid |
| Kate Heneghan | Papyrus UK |
| Ffion Edge | Adferiad |
| Lisa Williams | Adferiad |
| Sarah Hatherley | Tîm Ymchwil y Senedd |
| Lisa Roberts | Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant |
| Liz Williams | Coleg Brenhinol y Seiciatryddion |
| Linda Newton | Gweithredu dros Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro |
| Gwyneth Sweatman | Ffederasiwn Busnesau Bach |
| Sara Moseley | Y Cyngor Meddygol Cyffredinol |
| George Wallace | Y Cyngor Meddygol Cyffredinol |
| Yr Athro Ian Jones | Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl |
| Valerie Billingham | Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Ian Price | Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) |
| Rachel Suff | Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) |
| June Jones | Amser i Newid Cymru |
| Amy Bainton | Barnardo's |
| Linsey Imms | TUC Cymru |
| Rhianydd Williams | TUC Cymru |
| Madelaine Phillips | Conffederasiwn GIG Cymru |
| Dai Davies | Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol |

| | |
|---|---|
| Alfred Oyekoya | Cymorth Iechyd Meddwl BAME |
| Elinor Crouch Puzey | Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant |
| Becky Ricketts | Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru |
| Jyles Robillard-Day | National Counselling Society |
| Ceri Reed | Parents Voices in Wales |
| Caroline Walters | Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith |
| Sarah Williamson | Y Coleg Nyrsio Brenhinol |
| Penny Gripper | Fforwm Iechyd Meddwl a Lles Cymru |
| Gerald Cole | Fforwm Iechyd Meddwl a Lles Cymru |
| Angie Darlington | Gweithredu dros Iechyd Meddwl Gorllewin Cymru |
| Charlotte Knight | Swyddfa Jane Bryant AS |
| Geroge Watkins | Swyddfa Jenny Rathbone AS |
| Vicki Evans | Swyddfa Jeremy Miles AS |
| David Goodban | Swyddfa Ken Skates AS |
| Rhiannon Moore | Swyddfa Julie Morgan AS |

## 1. Croeso a chyflwyniadau

Croesawodd Ken Skates AS (KS) bawb i'r cyfarfod, gan ddiolch yn arbennig i Lynne Neagle AS (LN), y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant am ei hamser. Tynnodd sylw at y ffaith bod aelodau'r grŵp yn awyddus i glywed ei myfyrdodau ar ei chyfnod yn y swydd a'i blaenoriaethau ar gyfer gweddill y Senedd

## 2. Lynne Neagle AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

Diolchodd y Dirprwy Weinidog i KS am y gwahoddiad i ddod i'r grŵp ac amlinellodd pa mor bwysig yw iechyd meddwl a pha mor bwysig y byddai yn y dyfodol wrth inni barhau i fynd i'r afael â'r heriau yn sgil y pandemig.

Amlinellodd LN ei blaenoriaethau'n ymwneud ag ymyrryd yn gynnar a dywedodd fod meithrin gwydnwch ymhlith plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth arbennig gan fod gan hyn y potensial i effeithio ar gwrs eu bywyd cyfan. Roedd yn rhaid i adnabod pobl sydd angen cymorth yn gynharach fod yn ganolog i'r gwaith ac roedd angen dull traws-lywodraethol, gan fod llawer o achosion gwreiddiol iechyd meddwl gwael y tu allan i'r gwasanaeth iechyd. Roedd yr angen i sicrhau canlyniadau gwell i bobl ar lawr gwlad o bwysigrwydd canolog ac mae angen canolbwyntio ar gyflawni'r hyn yr ymrwymwyd iddo'n barod fel rhan o'r strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, yn enwedig yn ymwneud â chymorth amenedigol, anhwylderau bwyta, CAMHS a mynediad at therapïau seicolegol. Roedd LN yn cydnabod bod heriau o ran y gweithlu yn ogystal â'r ffaith bod y pandemig wedi gadael ei ôl ar staff rheng flaen. Siaradodd LN am ei hymrwymiad personol parhaus yn ymwneud ag atal

hunanladdiadau a'i bwriad i gryfhau trefniadau llywodraethu ynghylch darparu strategaethau Llywodraeth Cymru.

Tynnodd LN sylw at y ffaith mai ei bwriad yw cymhwyso egwyddorion ei dull gweithredu fel Cadeirydd pwyllgor yn y Senedd diwethaf, i'w gwaith fel Gweinidog. Mae hi'n awyddus i gyfarfod â sefydliadau a phobl er mwyn deall eu profiadau ac mae'n gwerthfawrogi rôl y trydydd sector yn fawr. Siaradodd LN am roi profiad byw wrth wraidd popeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud, yn enwedig mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc.

**3. Trafodaeth**

Diolchodd Ceri Reed (CR) i LN am ei heiriolaeth ac am fod yn barod bob amser i wrando ar lais profiad byw a gofynnodd sut y gellir cynyddu gweithio ar y cyd â'r trydydd sector. Ychwanegodd Angie Darlington fod angen cydbwyso canllawiau comisiynu â chreadigrwydd er mwyn cyrraedd y rhai mwyaf anghenus. Diolchodd LN i CR am ei sylwadau a chytunodd fod gwella gweithio mewn partneriaeth yn allweddol a byddai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael cais i ddangos sut y maent yn ymgysylltu â'r trydydd sector yn eu hardaloedd.

Tynnodd Ian Jones (IJ) sylw at y ffaith bod gennym waith ymchwil iechyd meddwl o'r radd flaenaf yng Nghymru, y gellid gwneud mwy ohono o ran datblygu cymorth i bobl a gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. Cytunodd LN a dywedodd yr hoffai wneud mwy gyda'r gymuned ymchwil yng Nghymru, gan nodi'r gwaith a wnaed gan Ann John fel enghraifft o'r gwahaniaeth y gellir ei wneud.

Siaradodd Linsey Imms (LI) am iechyd meddwl yn y gweithle a phwysigrwydd cymryd dull gweithredu gweithlu cyfan. Roedd hyn yn golygu bod angen i bolisïau ac arferion fod ar waith ochr yn ochr â diwylliant gwaith cadarnhaol. Yn rhy aml, mae bwlch yn parhau i fod rhwng rheolwyr a gweithwyr o ran eu profiadau a'u canfyddiadau o gymorth. Tynnodd LN sylw at y ffaith bod stigma'n parhau i fod yn broblem i lawer, er bod rhai camau breision wedi cael eu cymryd. Mae mynd i'r afael â gwell iechyd meddwl yn y gweithle yn uchel ar agenda Llywodraeth Cymru, gan gydnabod bod amrywiaeth gweithleoedd yn her i ddull unffurf

Tynnodd Dai Davies (DD) sylw at y rôl bwysig y mae therapyddion galwedigaethol yn ei chwarae o ran cefnogi taith y claf, yn enwedig y tu hwnt i adsefydlu. Roedd LN yn croesawu ac yn gwerthfawrogi'r rôl y mae therapyddion galwedigaethol yn ei chwarae.

Cododd Amy Bainton (AB) y mater o atgyfeiriadau priodol a hyfforddi gweithwyr proffesiynol i ymateb yn effeithiol i bobl ifanc sy'n arddangos iechyd meddwl gwael. Tynnodd LN sylw at bwysigrwydd dull gweithredu 'dim drws anghywir' er mwyn osgoi porthgadw o fewn gwasanaethau. Aeth LN ymlaen i dynnu sylw at bwysigrwydd uwchsgilio'r rhai mewn ysgolion sydd â pherthynas arbennig o allweddol gyda phobl ifanc.

Tynnodd Emma Gooding (EG) sylw at yr angen dybryd am ddull gweithredu traws-lywodraethol tuag at iechyd meddwl gan fod anghydraddoldeb wedi cynyddu'n sylweddol. Roedd angen mynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd meddwl, er enghraifft, dyled, cyflogaeth ansicr, tai, ac ati, os ydym am leihau effaith iechyd meddwl gwael yn effeithiol. Roedd LN yn cytuno.

**4. Y camau nesaf**

Diolchodd KS i LN am ei hamser ac am ymgysylltu mor gadarnhaol â'r drafodaeth. Roedd yr holl aelodau'n edrych ymlaen at ei chefnogi yn ystod tymor nesaf y Senedd ac at ei chroesawu'n ôl i gyfarfod yn y dyfodol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd.